# GEM UK: Adroddiad Cymru 2016

Karen Bonner, Mark Hart a Jonathan Levie

Mae Monitor Entrepreneuriaeth y Byd yn brosiect rhyngwladol yn cynnwys 65 economi yn 2016 sy'n ceisio darparu gwybodaeth ar dirlun entrepreneuraidd gwledydd. Mae sawl astudiaeth wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd, a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Y maint sampl yng Nghymru oedd 2,950 o oedolion dros 18 oed o ganlyniad i Lywodraeth Cymru yn rhoi hwb i sampl genedlaethol y DU.

## Prif Ganfyddiadau

- **Y gyfradd ar gyfer entrepreneuriaeth cam cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2016 oedd 7.6 y cant. Nid oedd hyn yn wahanol i gyfradd 2015, nac amcangyfrifon 2016 o 9.2 y cant ar gyfer Lloegr a 8.8 y cant ar gyfer yr holl DU.**

- **Mae gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yn cael ei ysgogi gan resymau cyfle; roedd TEA a sbardunwyd gan gyfle yn 5.6 y cant yng Nghymru yn 2016 a TEA a sbardunwyd gan angen yn 1.6 y cant. Mae'r ddwy gyfradd yn debyg i'r rhai a welwyd yn 2015.**

- **Ar 5.8 y cant, roedd cyfradd TEA menywod yng Nghymru yn agos i'w chyfradd uchaf erioed o 6.1 y cant yn 2011. Roedd y gyfradd hefyd bron yr un fath ag amcangyfrif y DU o 5.7 y cant. Cododd cymhareb TEA benyw i wryw i 61 y cant yn 2016; roedd cymhareb y DU yn 49 y cant. O gymharu â'r DU, mae'r gymhareb uchaf yng Nghymru yn adlewyrchu cyfradd TEA dynion is na chyfartaledd y DU.**

- **Nid oedd y gyfradd TEA ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru, ar 6.0 y cant, yn wahanol iawn i gyfradd y DU o 8.0 y cant. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r ddwy gyfradd wedi cydgyfeirio wedi cyfnod o gyfraddau TEA cynyddol ymysg pobl ifanc yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad.**

- **Nid oedd cyfradd TEA ar gyfer pobl ifanc 18 i 29 oed yn wahanol i gyfradd TEA pobl 30 i 64 oed. Yn wir, yn 2016 roedd pob grŵp oedran yng Nghymru a'r DU yr un mor entrepreneuraidd â'i gilydd.**

- **Roedd agweddau entrepreneuraidd yn gyson â'r rhai hynny a adroddwyd yn 2015. Fe wnaeth canfyddiad cyfle'r boblogaeth o oedran gweithio nad oedd yn entrepreneuraidd aros ar 30 y cant a oedd eto yn sylweddol is na'r ffigur ar gyfer y DU.**

- **Roedd canran yr unigolion nad oedd yn entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru a welodd gyfleoedd ond bod arnynt ofn cychwyn busnes rhag ofn y byddai'n methu hefyd yn gymharol sefydlog ar ychydig o dan 40 y cant. Roedd y ffigur yn debyg i un y DU.**

- **Mae disgwyl i tua 9 y cant o oedolion nad oedd yn entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru gychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf. Mae’r gyfradd hon wedi codi’n sylweddol dros y degawd ond mae’n parhau i fod o dan gyfradd y DU o 11 y cant yn 2016.**

# Cefndir

Mae Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) yn seiliedig ar y datganiadau dilynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n dibynnu'n fawr ar sector entrepreneuriaeth dynamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o bob grŵp mewn cymdeithas sydd â'r gallu a'r ysgogiad i gychwyn busnesau, ac mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol positif ynghylch entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth twf uchel yn gyfrannwr allweddol i gyflogaeth newydd mewn economi, ac mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a thrawsffiniol.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) noddi cydran Gymreig y prosiect ymchwil GEM DU. Mae symbylu entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig i'r rhanbarth ac mae Llywodraeth Cymru wedi arwain o ran sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori o fewn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg lle mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn GEM. O'r 300,000 o ymatebwyr i arolygon GEM DU ar gyfer y cyfnod 2002-2016, roedd mwy na 50,000 o ymatebwyr yn dod o Gymru. Erbyn hyn mae gan Gymru un o'r cronfeydd data mwyaf ar agweddau entrepreneuraidd, gweithgarwch a dyheadau yng ngwledydd cartref y DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad tuedd ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl iau neu hŷn, mewn cysylltiad â'r gwledydd cartref eraill.

Defnyddir y canlyniadau o ddadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol o gwmpas y byd. Hefyd maent yn galluogi i gymariaethau gael eu gwneud â rhanbarthau eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth ar dirlun entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig ein bod yn deall yn well penderfynyddion o entrepreneuriaeth cam cynnar, oherwydd mae tystiolaeth i awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn arbennig mewn economïau a ysgogir gan arloesedd megis Cymru.

# Sut mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuriaeth cam cynnar (a elwir yn TEA) trwy ddefnyddio'r ymagwedd ddilynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o hapsampl o'r boblogaeth o oedolion rhwng Mai a Medi.
- Y mynegai TEA yw'r cyfanswm o'r ymatebwyr hynny a ddosberthir fel entrepreneuriaid cychwynnol[1] ac entrepreneuriaid cwmni newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw'n seiliedig ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau maent yn eu sefydlu. Oherwydd hynny mae'n fesur unigryw y gellir ei gymharu ar lefel ryngwladol o duedd ddiwylliannol cenedl, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un dull o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw i ba raddau y seilir y gweithgarwch ar angen (h.y. nad oes unrhyw ddewisiadau amgen ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle gallai entrepreneuriaid fanteisio ar y potensial ar gyfer creu marchnad newydd).

Ers 2011 mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith cyflogeion wedi'i fesur hefyd. Erbyn hyn gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar sut mynegir gweithgarwch entrepreneuraidd o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle mae gan entrepreneuriaid lawer llai o fynediad at nawdd cymdeithasol na chyflogeion, er enghraifft, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i gynnwys cyfran uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cyffredinol[3]. Mae ystyried TEA ac EEA gyda'i gilydd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o weithgarwch entrepreneuraidd pob gwlad.

---

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol lle mae'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i gychwyn busnes newydd, busnes y bydd ef/hi yn berchen ar o leiaf ran ohono, ac nad yw wedi talu cyflogau nag incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinir yr ail gyfnod fel un o 4 i 42 mis wedi i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm i'r perchnogion. Cyfeirir at entrepreneuriaid sydd o leiaf yn berchen yn rhannol ar neu'n rheoli busnes newydd sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a heb fod yn fwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

[3] Fforwm Economaidd y Byd (WEF) a GEM Global (2016) "Europe's Hidden Entrepreneurs: Entrepreneurial Employee Activity and Competitiveness in Europe". http://www3.weforum.org/docs/WEF_Entrepreneurship_in_Europe.pdf

Yn ogystal â gweithgarwch, mae'r arolwg GEM yn gofyn i'r holl ymatebwyr am eu hagweddau at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.


Esbonnir y fethodoleg, meintiau samplau a systemau pwysoli a ddefnyddir ar gyfer yr arolwg poblogaeth oedolion GEM DU 2015 yn fanylach yn yr adroddiad GEM DU 2016 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o ymatebwyr ym mhob Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth (GOR) ar hap o'r aelwydydd oedd â ffonau symudol ond heb linellau tir ffôn gosod. Yn 2015, cynyddwyd hyn at 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar o ran y gyfran o aelwydydd â ffôn symudol yn unig yn y DU.

Mae'r adroddiad dilynol yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a themâu allweddol sy'n codi o'r arolwg GEM yn 2016 a'r dadansoddiad o'r pedair blynedd ar ddeg o ddata GEM (2002-16).

# Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar (Mynegai TEA)

Cyfradd entrepreneuriaeth cam cynnar yng Nghymru yn 2016 oedd 7. 6 y cant, nad yw'n wahanol iawn i'r amcangyfrif o 6.8 y cant yn 2015. Hefyd nid yw'r gyfradd yn wahanol iawn i'r cyfraddau yn y gwledydd cartref eraill, nag i amcangyfrif y DU o 8.8 y cant (Ffigur 1).


Yn gyffredinol, mae cyfradd TEA o 7.6 y cant yn gyfwerth i oddeutu un o bob tri ar ddeg o oedolion 18-64 oed, neu oddeutu 126,000 o unigolion, 58 y cant ohonynt yn y camau cynnar iawn o gychwyn busnes (entrepreneuriaid cychwynnol 4.4%) a'r gweddill yw'r rhai hynny oedd â busnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed.



**Ffigur 1: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar (TEA) yng Ngwledydd Cartref y DU 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)


Fel mae Ffigur 2a yn ei ddangos, fe wnaeth y gyfradd o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru, fel y DU, aros yn gymharol debyg rhwng 2004 a 2010 ar tua 6 y cant. Ers hynny mae'r cyfraddau perthnasol wedi amrywio a gwahaniaethu'n sylweddol. Fe wnaeth gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar yng Nghymru gyrraedd uchafbwynt yn 2011 cyn gostwng i'r gyfradd gyfartalog rhediad hir yn 2013. Roedd adferiad mewn cyfraddau TEA yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd yn 2014, a chydgyfeiriad yn 2015. Mae tuedd 2016 ar i fyny yn y ddwy gyfradd, gyda chyfradd Cymru yn agos at ei huchafbwynt blaenorol.

Yn 2016 y gyfradd weithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru oedd 4.4 y cant, bron yn ddigyfnewid o 4.3 y cant yn 2015. Roedd y gyfradd fusnes newydd i fyny ychydig, ond nid yn sylweddol, o 2.5 y cant yn 2015 i 3.5 y cant yn 2016. Fe wnaeth y cyfraddau cychwynnol ac entrepreneuriaeth newydd gynyddu yn y DU rhwng 2015 a 2016; y gyfradd gychwynnol yn codi o 4.0 y cant i 5.1 y cant a'r gyfradd perchennog busnes newydd yn codi o 3.1 y cant i 3.8 y cant.





**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-16)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae cyfraddau TEA Dwyrain a Gorllewin Cymru wedi tueddu i ddilyn tueddiadau tebyg dros amser (Ffigur 2b) er ar lefelau ychydig yn wahanol. Ers 2015 mae cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd yn nwyrain Cymru wedi bod yn debyg i gyfradd yr UE. Mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng ngorllewin Cymru hefyd wedi bod ar i fyny ac yn 2016, fel yn y blynyddoedd a fu, nid oedd yn wahanol iawn i gyfradd y dwyrain.




**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-16)** (Ffynhonnell: GEM APS)

Roedd TEA a ysgogwyd gan angen yng Nghymru yn 2016 yn 1.6 y cant, yn union fel yn 2015. Roedd TEA a ysgogwyd gan gyfle yn 5.4 y cant, bron yn ddigyfnewid o’r amcangyfrif o 5.4 y cant yn 2015. Roedd TEA a ysgogwyd gan angen fel cyfran o’r holl TEA yn 20 y cant, gyfran is nag yn y gwledydd cartref eraill a’r DU (Ffigur 3).




**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth Cyfle ac Angen yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Pwy yw’r Entrepreneuriaid yng Nghymru?

**Rhyw**: Mae gan ddynion gyfraddau gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar uwch na menywod ar y cyfan; yng Nghymru roedd cyfradd TEA dynion yn 9.5 y cant yn 2016 o gymharu â 5.8 y cant i fenywod. Yn 2016 roedd gan ddynion gyfradd TEA sylweddol uwch na menywod ledled y DU a’r holl wledydd cartref, ac eithrio Gogledd Iwerddon; roedd yr olaf oherwydd cyfradd gymharol is ar gyfer dynion (Ffigur 4). Roedd cyfradd dynion Gogledd Iwerddon hefyd yn llawer is na chyfradd dynion Lloegr a’r DU; nid oedd unrhyw wahaniaethau yng nghyfraddau menywod ledled y gwledydd cartref.


Mae’r gymhareb o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ar gyfer menywod i ddynion tua 50 y cant yn y DU. Roedd y gymhareb yng Nghymru’n 61 y cant yn 2016 o gymharu â chymhareb DU o 47 y cant. Mae gan Ogledd Iwerddon gymhareb cymharol uchel o 62 y cant hefyd. Gall cymarebau blynyddol amrywio o flwyddyn i flwyddyn, fodd bynnag mae’r

cymarebau rhediad hir dros y cyfnod 2002 i 2016 yn awgrymu bod gan Gymru gymhareb debyg, ar 53 y cant, â Lloegr (49 y cant) a'r Alban (53 y cant) ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (38 y cant).




**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Rhyw yng Ngwledydd Cartref y DU yn 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

Fe wnaeth y gyfradd TEA ar gyfer menywod ddisgyn o'i huchafbwynt uchaf erioed o 6.1 y cant yn 2011 i'w chyfartaledd rediad hir o oddeutu 4.0 y cant yn 2012 a 2013. Roedd y gyfradd yn 2016 yn agos i'w huchafbwynt blaenorol (Ffigur 5). Hefyd syrthiodd cyfradd TEA Cymru ar gyfer dynion yn sylweddol o 10.2 y cant i 6.5 y cant rhwng 2011-13 ond erbyn 2013 mae wedi sefydlogi ar oddeutu 9 y cant dros y blynyddoedd diwethaf. Gallwn weld yn Ffigur 5 bod cyfraddau TEA menywod yng Nghymru, gan mwyaf, wedi cyfateb i'r duedd yn y DU, er bod peth gwahaniaeth yn ystod 2011-13; mae wedi dychwelyd i gyfateb i duedd y DU yn 2015.





**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yng Nghymru a'r DU, 2002-2016.** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Oedran:** Yn y DU, unigolion rhwng 25-44 oed sy'n arddangos y cyfraddau uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar. Yn 2016 nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau gweithgarwch ar draws y bandiau oedran yn y DU, Cymru a Lloegr. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd y gyfradd TEA ar gyfer pobl 55-64 oed yn llawer is na'r gyfradd ar gyfer pobl 25-34 oed.

Ers sawl blwyddyn, mae dosbarthiad y gyfradd TEA yn ôl oedran wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru. Mae Ffigur 7 yn dangos cyfraddau TEA uchel iawn ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru yn 2011-12 ond mae'r gyfradd wedi gostwng yn ôl i tua 6 cant ac wedi parhau'n sefydlog ar y lefel honno yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfradd y DU wedi bod yn fwy cyfnewidiol ac yn 2016 roedd yn debyg i'r gyfradd uchaf a welwyd yn 2012.

O gymharu â'r DU, mae'r gyfradd uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ymhlith pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad yn awgrymu eu bod wedi wynebu hinsawdd economaidd anoddach, â'r diffyg swyddi'n golygu bod angen mynd yn hunangyflogedig, sydd erbyn hyn wedi diflannu wrth i'r economi adfer. Fel arall, gallai adlewyrchu'r ddarpariaeth gynyddol o weithgareddau entrepreneuriaeth ieuenctid gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.




**Ffigur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn ôl Oedran yng Ngwledydd Cartref y DU, 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)







**Figure 7: Tuedd yn y Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

Dadansoddiad a allai fod yn fwy defnyddiol yw asesu sut mae'r gyfradd TEA wedi newid yn y grŵp oedran 18 i 29 (lle ymddengys fod toriad naturiol o ran data gweithgarwch y DU) a chymharu hynny â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae Ffigurau 8 a 9 yn dangos, o gymharu â'r gwledydd cartref eraill, bod y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel ers y dirwasgiad, ond bod y cyfraddau wedi dychwelyd i'r cyfraddau a welir mewn mannau eraill yn y blynyddoedd diwethaf. Mewn cyferbyniad, mae'r gyfradd

TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed wedi bod yn gyson is na'r un ar gyfer Lloegr, a chyfartaledd y DU yn ystod 2012-14. Yn 2016 nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y gwledydd cartref yn y grŵp oedran 18 i 29 nag yn y grŵp oedran 30-64, ac nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol ychwaith rhwng y ddau grŵp oedran.





**Ffigur 8: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)




**Ffigur 9: Y duedd mewn Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref ar gyfer pobl 30 i 64 oed, 2002 i 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

**Addysg:** Mae gan raddedigion yn y DU gyfraddau uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar na phobl heb radd fel arfer. Yn 2016 roedd y gyfradd TEA i raddedigion y DU yn 10.4 y cant, oedd yn sylweddol uwch na'r gyfradd o 7.8 y cant i bobl heb radd (Ffigur 10). Fodd bynnag, roedd y gyfradd i bobl heb radd yn sylweddol uwch na'r hyn a welwyd yn 2015 (5.5%).

Y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion Cymru yn 2016 oedd 9.1 y cant o gymharu â'r gyfradd ar gyfer pobl heb radd o 6.9 y cant; nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y naill gyfradd na'r llall o gymharu â 2015 ychwaith. Yr Alban oedd yr unig wlad gartref lle'r oedd y cyfraddau TEA ar gyfer graddedigion yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl heb radd yn 2016.





**Ffigur 10: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam Cynnar yn y Gwledydd Cartref yn ôl y statws Graddio, 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy'n darparu dirprwy ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod person sydd wedi cychwyn busnes yn y 2 flynedd diwethaf, canfyddiad o gyfleoedd da ar gyfer cychwyn, hunangred o ran meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a mynychder ofn methu fel rhwystr i sefydlu busnes.

Mae data agweddol GEM yn cael ei adrodd yma ar y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid eto gan y gallai unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo bod rhaid iddynt ddarparu atebion positif yn yr Arolwg Poblogaeth Oedolion (APS).

Yng Nghymru yn 2016, mae un chwarter o unigolion yn datgan eu bod yn adnabod entrepreneur sydd oddeutu'r un gyfran â'r DU gyfan (Ffigur 11), a heb fod yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol. Mae dau o bob pump (38.4%) o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes – eto'n debyg i gyfartaledd y DU ar 41.1 y cant. Fel yn 2015, y prif wahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yw'r gyfran sylweddol is o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru sy'n credu bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal yn y chwe mis nesaf. Er gwaethaf y bwlch hwn, nid oes unrhyw wahaniaeth o ran y cyfraddau ofn methu.





**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a'r 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

Mae Ffigur 12 yn arddangos yr agweddau tuag at entrepreneuriaeth pan y'i cyfyngir i bobl 18-24 oed yn unig. Er bod cyfran uwch yn dweud y byddai ofn methu yn eu hatal rhag cychwyn busnes yng Nghymru nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn agweddau rhwng Cymru a'r DU.

Wrth gymharu agweddau pobl ifanc yn ôl yr holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid (fel y dangosir yn Ffig. 11) mae cyfran sylweddol uwch o bobl ifanc yng Nghymru'n adnabod


entrepreneur, ar 27.6 y cant o gymharu â 38.4 y cant ar gyfer y boblogaeth ehangach nad ydynt yn entrepreneuriaid. Roedd hyn yn wir yn y DU hefyd gyda dim ond 31.8 y cant o bobl ifanc yn cytuno â'r datganiad hwn o gymharu â 41.1 y cant o'r holl bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn y DU.




**Ffigur 12: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)


Roedd cyfran y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n gweld cyfleodd da i gychwyn busnes ond yn adrodd y byddai ofn methu'n eu hatal rhag cychwyn busnes, yn 38.4 y cant yn 2016, a oedd i lawr, heb fod yn sylweddol is, ar 2015. Y gyfradd ar gyfer y DU oedd 39.6 y cant, ond heb fod yn wahanol iawn i Gymru.

Mae Ffigur 13 yn dangos bod yr ofn methu wedi codi'n fwy trawiadol yng Nghymru na mewn gwledydd cartref eraill ers i'r dirwasgiad ddechrau yn 2008, ond yn ystod blynyddoedd diweddarach mae wedi disgyn yn unol â'r lleill. Yn 2016 nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y cyfraddau ofn methu ledled y gwledydd cartref.




**Ffigur 13: Ofn Methu ymhlith y rhai hynny sy'n gweld Cyfleoedd yng Ngwledydd Cartref y DU, 2002-16** (Ffynhonnell: GEM APS)


Yn arolwg 2016, fe wnaeth 29.9 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuriaid yng Nghymru gytuno bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o gymharu â 37.9 y cant yn y DU. Nid oedd y naill na'r llall yn wahanol iawn i'w hamcangyfrifon yn 2015, ac er bod y duedd ar i fyny yng Nghymru a'r DU, mae'r bwlch sylweddol o ran canfod cyfle rhwng Cymru a'r DU yn dal i fodoli (Ffigur 14).




**Ffigur 14: Canfyddiad o Gyfleoedd Cychwyn Busnes yng Nghymru a'r DU, 2002-16** (Ffynhonnell: GEM APS)


O edrych tua'r dyfodol, fe wnaeth y gyfran o oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf

aros bron yn ddigyfnewid ar 8.6 y cant yn 2016 (Ffigur 15). Fe wnaeth amcangyfrif y DU godi'n sylweddol i 11.1 y cant yn 2016. Roedd cynnydd o ran y cyfraddau bwriadau hyn yn ystod y dirwasgiad mae'n debyg yn adlewyrchu rhesymau o angen; yn 2016 mae'n debygol, yn wyneb economi sy'n gwella, bod hyn yn cynrychioli'r posibilrwydd o fwy o entrepreneuriaeth oherwydd cyfle.




**Ffigur 15: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuriaid, 2002-16** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2016, roedd cyfran y dynion nad oeddent yn entrepreneuraidd-weithredol a oedd yn adrodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer menywod (Ffigur 16) ar 10.7 ar gyfer dynion a 6.7 y cant ar gyfer menywod. Wedi'i dehongli'n gymhareb menywod i ddynion mae hyn yn gyfwerth i 63 y cant; sy'n cymharu â 60 y cant yn Lloegr, 68 y cant yn yr Alban a 74 y cant yng Ngogledd Iwerddon; yr olaf i'w briodoli'n bennaf i'r gyfradd is na'r cyfartaledd o ddynion. Yn gyffredinol, nid oedd bwriadau cychwyn busnes ar gyfer dynion a menywod fel ei gilydd yn y gwledydd cartref yn wahanol iawn i'r rhai hynny yn 2015.




**Ffigur 16: Disgwyliadau Cychwyn Busnes y Dyfodol (o fewn 3 blynedd) yng Ngwledydd Cartref y DU yn ôl Rhyw, 2016** (Ffynhonnell: GEM APS)

# Rhuglder Iaith Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn 2016 yng nghyfraddau TEA y rhai hynny yng Nghymru oedd yn rhugl eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig (10.0%); a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (7.6%), a'r rhai hynny nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg neu dim ond ychydig iawn (6.9%).

# Sylwadau Terfynol

Mae cynnal tuedd gweithgarwch entrepreneuraidd y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru yn 2016 wedi parhau'n galonogol gyda chyfradd TEA yn aros ar dros 7 y cant a bwriadau cychwyn busnes yn dal ar tua 9 y cant. Yn ystod y dirwasgiad gwelwyd symudiad at fwy o weithgarwch entrepreneuraidd ymhlith y grwpiau oedran iau yng Nghymru, yn rhannol oherwydd rhesymau angen a mwy o ffocws gan y Llywodraeth ar entrepreneuriaeth ieuenctid, fodd bynnag yn 2016 mae'r holl grwpiau oedran yr un mor debygol o fod yn entrepreneuraidd. Ar ben hynny, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru'n debyg i'r lefel a welir yn y DU gyfan, yn arbennig o ran rhyw ac oedran.

Mae’r metrigau agwedd eto’n dangos teimladau positif tuag at entrepreneuriaeth, gydag ychydig o dan ddau o bob pump o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn datgan bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i gychwyn busnes a mwy na chwarter yn adnabod entrepreneur sydd wedi cychwyn busnes o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Lle mae agweddau’n wahanol i agweddau’r DU yw’r gyfran sy’n credu bod cyfleoedd da i gychwyn busnes yn bodoli’n lleol o fewn y chwe mis nesaf. Mae’r gyfradd ar gyfer Cymru wedi cynyddu’n sylweddol ers 2010 ond mae’n gyson is na’r un ar gyfer y DU ac wedi parhau’n ddigyfnewid dros y flwyddyn. Gallai hyn awgrymu problemau gwahanol ynghylch galw lleol yng Nghymru neu yn yr amodau y canfyddir sy’n angenrheidiol ar gyfer sefydlu busnes llwyddiannus.

Er gwaethaf y bwlch rhwng Cymru â’r DU ynghylch canfod cyfle, mae ofn methu’n dal i fod yn ddigyfnewid yng Nghymru ac mae’n cymharu’n dda â’r gyfradd yn y DU. Ar ei uchaf yn 2011 roedd tua hanner y rhai a oedd wedi nodi cyfleoedd cychwyn yn datgan y byddai ofn methu yn eu hatal rhag cychwyn busnes. Yn 2016 mae hyn wedi gostwng i lai na 40 y cant sy’n cadarnhau’r hyder o fewn y boblogaeth o’r gallu i gychwyn busnes llwyddiannus a’r amodau ar gyfer gwneud hynny.

## Ymwrthodiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd gan gonsortiwm GEM a thîm GEM y DU; yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am ddadansoddi a dehongli'r data.

**I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect GEM DU, cysylltwch â:**

Dr Karen Bonner
Grŵp Economeg, Cyllid ac Entrepreneuriaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: k.bonner1@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Mark Hart
Grŵp Economeg, Cyllid ac Entrepreneuriaeth
Ysgol Fusnes Aston, Prifysgol Aston
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Jonathan Levie
Canolfan Entrepreneuriaeth Hunter
Prifysgol Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,

Glasgow, G1 1XH
E-bost: j.levie@strath.ac.uk